

Arolygiad Cenedlaethol Diogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal, sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored I newid neu a allai beri risg

Arolygiad o Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

1.0. CYFLWYNIAD

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygiad mewn perthynas â: Diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal, sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- 1.2. Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen arolygu thematig genedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Roedd methodoleg yr adolygiad yn cynnwys tri diwrnod a hanner o waith maes ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru rhwng mis Ionawr a mis Mai 2014.
- 1.3. Nod yr arolygiad cenedlaethol oedd asesu ansawdd gwaith cynllunio gofal ledled Cymru a pha un a oedd yn gwneud y canlynol yn effeithiol:
 - Cefnogi ac amddiffyn plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal;
 - Nodi a rheoli plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed ac a allai beri risg;
 - Hyrwyddo ymarfer ar sail hawliau a llais y plentyn;
 - Hyrwyddo canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal;
 - Hyrwyddo cydymffurfiaeth â pholisïau a chanllawiau.
- 1.4. Bydd canfyddiadau arolygiadau awdurdodau lleol unigol yn llywio adroddiad trosolwg cenedlaethol AGGCC i'w gyhoeddi yn hwyrach yn y flwyddyn.

2. YR AROLYGIAD

- 2.1 Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar y gwaith a wnaed gyda phlant dros 11 oed sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal y nodwyd eu bod yn agored i niwed a/neu'n ymddwyn mewn ffordd a allai beri risg, yn erbyn meini prawf diffiniedig.
- 2.2 Mae'n bwysig cydnabod, o ystyried y ffocws hwn, bod y sampl o achosion a adolygwyd ym mhob awdurdod lleol yn cwmpasu rhai o'r materion rheoli achosion mwyaf heriol a chymhleth ac ond yn cynrychioli carfan fach o boblogaeth ehangach y plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal ym mhob awdurdod.
- 2.3 Yn ogystal ag arolygu achosion o ran systemau asesu, cynllunio gofal ac adolygu, roedd yr arolygiad hefyd yn ystyried i ba raddau roedd y trefniadau rhianta corfforaethol, rheoli a phartneriaeth yn gweithredu er mwyn hyrwyddo canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal. Hefyd, roedd yn ystyried sut roedd strwythurau trefniadol gan gynnwys y gweithlu, adnoddau, eiriolaeth a dulliau sicrhau ansawdd yn effeithio ar ansawdd y cynlluniau gofal.

Ystyriodd yr arolygiad y meysydd hyn yn erbyn y pum cwestiwn canlynol.

Nodir crynodeb o'n canfyddiadau isod

CWESTIWN 1

A wnaeth yr awdurdod gyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau rhianta corfforaethol yn effeithiol gan hyrwyddo sefydlogrwydd, lles a diogelwch plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal?

SYLWADAU CADARNHAOL

- Roedd gan yr awdurdod strategaeth rhianta corfforaethol a oedd yn nodi ymrwymiad yr awdurdod i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal ar ffurf pum addewid a oedd yn adlewyrchu'r saith nod craidd. Roedd y strategaeth yn pwysleisio gwaith cydweithredol. Nododd uwch swyddogion a phartneriaid gynnydd yn erbyn y prif faes cyfrifoldeb a ddirprwywyd iddynt i Dîm Rhianta Corfforaethol. Roedd y tîm rhianta corfforaethol hefyd yn cael adborth cyfnodol gan y grŵp cyfranogi plant sy'n derbyn gofal, 'Lleisiau Uchel'.
- Roedd yr awdurdod hefyd wedi sefydlu 'ysgol rithwir' fel is-grŵp i'r tîm rhianta corfforaethol. Nod hyn oedd rhoi'r cyfle i aelodau a swyddogion ddadansoddi gwybodaeth er mwyn deall materion sy'n gysylltiedig ag ysgolion fel perfformiad, presenoldeb a gwaharddiadau tymor sefydlog yn well. Roedd y broses hon yn ddefnyddiol tu hwnt i aelodau.
- Roedd gan yr awdurdod systemau ar waith a oedd yn helpu swyddogion ac aelodau i oruchwyllo cydymffurfiaeth mewn perthynas â chyfrifoldebau statudol yr awdurdod am blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal. Roedd y systemau hyn hefyd yn monitro cydymffurfiaeth yn erbyn materion fel pobl ifanc nad ydynt mewn addysg na chyflogaeth (NEET). Roedd uwch swyddogion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am natur agored i niwed plant unigol sy'n derbyn gofal drwy systemau fel 'Panel Aml-Asiantaeth Strategol' a oedd yn rheoli'r gallu i gael gafael ar wasanaethau ac yn cytuno ar leoliadau y tu allan i'r awdurdod a threfniadau ariannu.
- Roedd gan yr awdurdod drefniadau ar waith i sicrhau bod gan blant sy'n derbyn gofal fynediad i addysg a gwasanaethau iechyd sylfaenol.
- Roedd y Bwrdd Diogelu Plant ar gamau cynnar y broses o drosglwyddo i ôl-troed rhanbarthol. Roedd cynlluniau ar waith i sefydlu tîm 'rhithwir' ledled Gogledd Cymru, yn benodol i asesu pobl ifanc sy'n ymddwyn mewn ffordd rywiol niweidiol. Roedd y Bwrdd Diogelu Plant ar y cyd lleol yn parhau i weithio i fynd ar drywydd blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.
- Ar adeg yr arolygiad, roedd yr awdurdod yn datblygu 'rhaglen drawsnewid'. Unwaith y byddent ar waith, byddai newidiadau strwythurol yn lleoli gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion mewn un gyfarwyddiaeth gydag addysg. Roedd yr awdurdod hefyd yn mynd ati i gyflwyno gwasanaeth i unigolion sy'n agored i niwed rhwng 18 a 65 oed). Roedd trefniadau pontio wedi'u sefydlu rhwng gwasanaethau

cymdeithasol plant ac oedolion ond byddai'r gwasanaeth newydd i unigolion sy'n agored i niwed o bosibl yn galluogi unigolion nad oeddent yn cyrraedd trothwyon gwasanaethau oedolion ar hyn o bryd i gael gafael ar wasanaethau. Roedd hon yn agenda uchelgeisiol ond roedd yn rhy gynnar i werthuso effaith y trefniadau newydd na'r goblygiadau posibl o ran adnoddau.

- Roedd y strwythur sefydliadol ym maes gwasanaethau plant wedi'i gyflunio'n rhannol er mwyn gwella ymatebolrwydd yr awdurdod i ddisgwyliadau'r amlinelliad cyfraith gyhoeddus. Roedd y trefniadau'n golygu bod gan bob tîm rywfaint o achosion plant sy'n derbyn gofal ond câi'r cyfrifoldeb ei drosglwyddo i'r tîm sefydlogrwydd a llwybrau (pod7) unwaith y byddai gorchymyn gofal neu gynllun sefydlogrwydd ar waith. Cydnabu staff fod y pwyntiau trosglwyddo rhwng timau'n arwain at rywfaint o newid cychwynnol ond roeddent o'r farn bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd gwell i feithrin cydberthnasau gwaith mwy cynaliadwy â gweithwyr cymdeithasol yn y tymor hwy. Nododd yr awdurdod fod gweithiwr cymdeithasol yn cael ei neilltuo i bob plentyn sy'n derbyn gofal. Dywedodd staff fod y llwythi achosion presennol yn gyflawnadwy ar y cyfan.

MEYSYDD I'W GWELLA

- Roedd aelodau etholedig wedi cydnabod pwysigrwydd eu rôl mewn perthynas â diogelu a rhianta corfforaethol ond roedd angen iddynt ddarparu mwy o her er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal, gan gynnwys y rhai sydd fwyaf agored i niwed a'r rhai mwyaf heriol. Roedd angen i aelodau sicrhau eu hunain ymhellach pa wahaniaeth sy'n cael ei wneud ac i ba raddau yr oedd nodau strategol yn cael eu perchenogi a'u troi'n gamau gweithredu amserol ar draws yr awdurdod lleol a chan asiantaethau partner. Byddai'r tîm rhianta corfforaethol yn cael budd o gynnwys gwasanaethau cymdeithasol oedolion.
- Roedd materion yn ymwneud â risg a natur agored i niwed pobl ifanc yn cael eu trafod a'u rhannu ar draws rhai asiantaethau partner drwy'r 'Panel Aml-asiantaeth Strategol'. Fodd bynnag, nid oedd yr awdurdod yn caffael proffil o anghenion a aseswyd y poblogaethau o blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal fel mater o drefn. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn i'r awdurdod werthuso effeithiolrwydd ei strategaethau lleoli, sefydlogrwydd ac atal er mwyn rhagweld yr adnoddau y bydd eu hangen yn y dyfodol. Gallai'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r 'Panel Aml-asiantaeth Strategol' gyfrannu at broffil manylach o'r anghenion dan sylw.
- Roedd gwasanaethau cymdeithasol plant yn gweithio gyda Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r amrywiaeth o lety sydd ar gael i bobl ifanc sy'n derbyn gofal ac argaeledd y llety hwnnw. Roedd ystyried effaith cynigion 'pan fydda i'n barod' wedi codi proffil y mater hwn a gwaith craffu a chydabu'r tîm rhianta corfforaethol fod tai a llety â chymorth yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, er bod cydberthnasau gweithredol wedi'u gwella a Strategaeth Llety Pobl Ifanc a Strategaeth Digartrefedd leuenctid wedi'u datblygu'n ddiweddar, araf oedd y cynnydd o hyd. Dywedodd staff a phobl ifanc fod y bwch mewn tai 'camu ymlaen' priodol wedi effeithio ar y gallu i gynllunio annibyniaeth yn effeithiol. Nodwyd enghreifftiau lle nad oedd pobl ifanc yn gwybod ble y byddent yn byw ar ôl troi'n 18 oed, a nodwyd mai'r opsiynau oedd digartrefedd neu hostel.

- Er gwaethaf rhywfaint o ymgysylltu gweithredol da, roedd gwydnwch cydberthynas yr awdurdod â gwasanaethau iechyd yn dibynnu'n ormodol yn ôl pob golwg ar wasanaethau cymdeithasol plant yn darparu cyllid ac adnoddau i asesu a diwallu anghenion therapiwtig plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal.

CWESTIWN 2

A lywiwyd cynlluniau gofal a chynlluniau llwybrau gan asesiadau perthnasol, gan gynnwys asesiadau risg penodol, a ategodd ymateb cynhwysfawr i anghenion a phrofiadau plant a phobl ifanc?

SYLWADAU CADARNHAOL

- Roedd prosesau atgyfeirio a rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol wedi'u deall ac roedd cydberthnasau gweithredol rhwng staff gan gynnwys y Gwasanaeth Troseddu Ieuencid yn helpu i gefnogi dulliau cyfathrebu. Roedd gan weithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr ddealltwriaeth dda ar y cyfan o'r bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda hwy gan gynnwys gwybodaeth am natur agored i niwed. Fodd bynnag, dangosodd tystiolaeth o ffeiliau nad oedd penderfyniadau a chyfeiriad yr achos mewn rhai achosion cymhleth yn glir ar adeg trosglwyddo.
- Roedd gan yr awdurdod wasanaethau cymorth a therapiwtig mewnol sefydledig. Roedd y trefniadau hyn wedi'u had-drefnu'n ddiweddar er mwyn datblygu Tîm Ymyriadau Teuluol cyffredinol, a oedd yn cynnwys trosolwg therapiwtig o achosion. Nod y gwasanaeth hwn oedd darparu ymateb cyfannol i blant a'u teuluoedd gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr. Bwriad yr awdurdod oedd gwerthuso ei effaith dros amser ond mynegwyd rhai pryderon ynghylch gallu pobl ifanc i gael gafael ar y gwasanaeth mewn modd amserol a'r posibilrwydd o golli arbenigedd. Er gwaethaf rhai cydberthnasau adeiladol â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), gan gynnwys ymgynghoriadau bob deufis, dywedwyd bod diffyg ymyriadau amserol gan weithwyr proffesiynol CAMHS yn cael effaith andwyol ar waith cynllunio gofal i bobl ifanc.
- Roedd gwaith y gwasanaeth cymorth addysgol i blant sy'n derbyn gofal (LACES) yn cael ei werthfawrogi gan gynnwys ei allu i negodi a datrys problemau o fewn ysgolion yn uniongyrchol. Hyrwyddwyd cyflawniad addysgol, er enghraifft darparwyd hyfforddiant ychwanegol gan gynnwys ysgol haf a mentora. Roedd sefydlogrwydd mewn ysgolion yn flaenoriaeth a gwnaed cryn ymdrech i gynnal lleoliadau ysgol er gwaethaf tarfu ar leoliadau. Roedd DVD wedi ei greu gan bobl ifanc sy'n derbyn gofal er mwyn rhoi eu safbwyntiau i ofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol ynghylch hyrwyddo cyflawniad addysgol. Mae'r awdurdod yn ceisio sicrhau bod Cynlluniau Addysg Personol yn ystyrlon a'u bod yn cael eu diweddarau er mwyn caffael ac adlewyrchu gallu'r person ifanc. Er gwaethaf cydberthnasau da ag ysgolion a cholegau, mewn rhai achosion gwelwyd yr anhawster yr oedd pobl ifanc yn ei gael wrth ymgysylltu ag addysg, yn enwedig pan oeddent am adael lleoliad yn 16 oed.
- Roedd asesiadau iechyd ar gael i'w hadolygu ar y cyfan ac roedd y gwasanaeth iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn rhoi cyngor ar iechyd sylfaenol, bwyta'n iach ac iechyd rhywiol i bobl ifanc a'u gofalwyr. Gwelwyd enghreifftiau o achosion lle roedd gwasanaethau iechyd plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr maeth yn cydweithio'n dda â'i

gilydd er mwyn cynnwys rhai pobl ifanc a fu'n amharod i ofyn am gyngor ar iechyd a'i dderbyn. Roedd y systemau hysbysu oedd ar waith a'r niferoedd cymharol fach o blant a leolwyd y tu allan i'r awdurdod lleol yn helpu gweithwyr proffesiynol i oruchwylio'r garfan hon o bobl ifanc. Codwyd pryderon bod yr hysbysiadau gan awdurdodau a oedd yn lleoli pobl ifanc yng Nghonwy yn llai dibynadwy.

MEYSYDD I'W GWELLA

- Mae gan reolwyr systemau ar waith i fonitro gwaith cynllunio parhad a chydabuwyd yn dda bwysigrwydd hyrwyddo dewis o leoliad a sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, nid oedd yr amrywiaeth o leoliadau sydd ar gael yn ddigonol i ddiwallu anghenion cymhleth rhai pobl ifanc. Cydnabu staff nad oedd anghenion bob amser yn cael eu "paru" i sgiliau gofalwyr maeth. Roedd yr awdurdod wedi gweithio i gynyddu'r amrywiaeth o ofalwyr maeth mewnol, fodd bynnag, roedd hyn yn parhau'n her sylweddol. Roedd yr awdurdod wrthi'n adolygu ei wasanaeth maethu.
- O'r achosion a welwyd, nodwyd nad oedd cynlluniau gofal y bobl ifanc hynny sy'n parhau i dderbyn gofal am gyfnodau hwy o amser yn cael eu llywio gan asesiad ysgrifenedig a rennir perthnasol fel mater o drefn, hyd yn oed pan roedd newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau. . Lle y cynhaliwyd asesiadau, roedd rhywfaint o waith casglu gwybodaeth da yn amlwg, ond roedd ansawdd y gwaith dadansoddi'n amrywio o hyd. Roedd yr awdurdod wedi ailgynllunio'r fformat asesu craidd yn ddiweddar gan newid i fformat naratif a oedd yn annog proses fwy penodol o archwilio risg.
- Nid oedd risgiau bob amser yn cael eu nodi'n amserol ar hyn o bryd, ac roedd y broses o reoli risgiau'n ymddangos yn dameidiog. Mewn rhai achosion, dibynnwyd ar rannu gwybodaeth anffurfiol rhwng y gweithwyr dan sylw ac ar yr adroddiad gwaith cymdeithasol, a baratowyd fel rhan o'r adolygiad statudol, fodd bynnag, gwybodaeth ac nid dadansoddiad a roddwyd gan yr adroddiad hwn. Nid oedd effaith ganlyniadol y camau a gymerwyd bob amser wedi'i hadlwyrrchu'n dda o fewn yr adolygiad o blant sy'n derbyn gofal na'r broses o gynllunio gofal. Mae angen i'r awdurdod sicrhau bod asesiadau risg a chamau gweithredu canlyniadol yn cael eu coladu a'u cofnodi'n gliriach.
- Roedd gwasanaethau plant wedi buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer y gwasanaeth cyfan ar adnodd fframwaith ar gyfer dadansoddi. Roedd yr adnodd hwn yn cynnwys system sgorio a oedd yn cefnogi dealltwriaeth a rennir o anghenion a risgiau ac yn rhoi man cychwyn y gellid mesur cynnydd yn ei erbyn. Er bod y dull gweithredu hwn yn ddefnyddiol i staff, yn enwedig mewn perthynas â rheoli achosion amddiffyn plant a phlant mewn angen, roedd perthnasedd yr adnodd a'r modd y câi ei gymhwyso mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn llai eglur.
- Roedd ansawdd y cynlluniau gofal a welwyd yn amrywio. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys datganiadau cyffredinol eang ond nid oeddent yn diffinio'r amcanion fel mater o drefn nac yn nodi sut y byddai'r canlyniadau dymunol ar gyfer y person ifanc yn cael eu cyflawni. Roedd y broses o gofnodi cynlluniau gofal weithiau'n adlwyrrchu lles pennaf y plentyn ond nid oedd yn cydnabod yn gywir wahaniaethau croes mewn amcanion cynllunio, er enghraifft, mewn un achos

cofnodwyd y byddai'r person ifanc yn aros mewn lleoliad pan oedd y person ifanc wedi nodi'n glir nad oedd am aros mewn gofal. Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym na chawsant gopi o'u cynllun a dywedodd eraill wrthym fod ganddynt gopi ond ei fod yn 'ddiflas'. Er gwaethaf ymdrechion gan staff, nid oedd pobl ifanc yn teimlo perchenogaeth dros eu cynllun yn ôl pob golwg.

- Roedd ansawdd y cynlluniau llwybrau a welwyd yn anghyson ac yn aml roedd diffyg manylion a gwaith cynllunio wrth gefn, yn enwedig mewn perthynas â materion hysbys fel tai. Roedd unigolion sy'n gadael gofal o'r farn bod ffocws ymarferol gwaith cynllunio llwybrau yn fuddiol ond dywedasant fod penderfyniadau ariannol a phenderfyniadau am adnoddau yn araf ac yn anghyson o hyd.
- Roedd unigolion sy'n gadael gofal yn gadarnhaol ar y cyfan am y cymorth a gawsant gan eu cynghorwyr personol, ac roeddent yn ystyried bod yr unigolyn hwn yn gweithredu fel eiriolwr drostynt. Fodd bynnag, roedd pwysau llwythi achosion a throsiant staff, mewn tîm bach, yn golygu bod rhai pobl ifanc wedi wynebu oedi yn y broses o neilltuo cynghorydd personol neu wedi cael sawl gweithiwr gwahanol. Yn ôl pob golwg, roedd angen datblygu'r gwasanaeth Cynghorydd Personol ymhellach.

CWESTIWN 3

A oedd systemau gweithredol a gweithdrefnau ar waith a oedd yn sicrhau y cymerir camau gweithredu cydlynol ymatebol er mwyn lliniaru risgiau a sicrhau parhad gofal diogel?

SYLWADAU CADARNHAOL

- Roedd staff yn gallu cael gafael ar bolisiâu allweddol ac er nad oedd gan yr awdurdod brotocol penodol mewn perthynas ag ymddygiadau a allai beri risg, roedd y materion hyn wedi'u cynnwys mewn dogfennau amddiffyn craidd. Roedd systemau gwybodaeth datblygedig ar waith er mwyn helpu i oruchwylio cydymffurfiaeth mewn perthynas â gweithdrefnau amddiffyn plant statudol.
- Roedd prosesau amddiffyn plant yn cael eu defnyddio i reoli risgiau ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc. Fodd bynnag, roedd y gydberthynas weithredol a'r cyfathrebu rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn ymddangos yn anghyson. Codwyd pryderon mewn un achos fod oedran hŷn y plentyn wedi golygu bod yr heddlu wedi ymateb mewn modd llai rhagweithiol. Roedd asiantaethau'n cydweithio'n dda ar y cyfan mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a phlant coll. Roedd y trefniadau partneriaeth rhanbarthol ledled gogledd Cymru hefyd wedi'u hatgyfnerthu yn dilyn penodi cydgysylltydd unigolion coll gan yr heddlu, ac roedd hyn wedi arwain at broses rhannu gwybodaeth sylweddol well a chymau cydgysylltiedig i leihau risgiau i bobl ifanc. Roedd arian ar gael ar gyfer gweithwyr ychwanegol a fyddai'n dadfrifio pobl ifanc a fu ar goll er mwyn gwella gwybodaeth am risg a helpu i leihau nifer yr 'unigolion coll'.
- Roedd trefniadau strwythurol yr awdurdod yn golygu bod gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn yr hirdymor ac unigolion sy'n gadael gofal wedi'u lleoli'n bennaf o fewn tîm arbenigol. Roedd staff yn y tîm hwn yn gwneud gwaith amddiffyn plant mewn perthynas â'u hachosion eu hunain a

chydabuwyd bod hyn yn flaenoriaeth. Mynegodd staff farn gymysg ynghylch p'un a oedd ganddynt yr amser a'r hyder i wneud gwaith uniongyrchol gyda phobl ifanc.

- Roedd gweithwyr yn glir bod diogelu yn flaenoriaeth gan ddweud bod amrywiaeth o hyfforddiant ar gael i'w cefnogi yn eu hymarfer amddiffyn a diogelu plant, gan gynnwys lle roedd y risgiau'n deillio o ymddygiad y person ifanc ei hun. Roedd gan yr awdurdod weithlu cymharol sefydlog ac roedd lefel dda o brofiad o fewn timau. Roedd yr awdurdod wedi ceisio cefnogi staff newydd gymhwysu yn ystod eu blynyddoedd cyntaf o ymarfer, er enghraifft, drwy hyfforddiant a mentora, fodd bynnag, nodwyd bod cyfyngiadau amser weithiau'n atal staff rhag manteisio ar y cyfleoedd hyn.
- Yn dilyn trafodaethau a gychwynnwyd gan y 'Panel Aml-asiantaeth Strategol' roedd yr awdurdod wedi mynd ati i ddatblygu gwasanaeth i blant a phobl ifanc a oedd yn ymddwyn mewn ffordd rywiol niweidiol ac mewn ffordd amhriodol. Byddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei lansio yn yr ychydig fisoedd nesaf ac yn cael ei gefnogi gan raglen hyfforddi.

MEYSYDD I'W GWELLA

- Er bod gweithdrefnau a throthwyon amddiffyn plant statudol wedi'u deall yn dda, roedd angen mwy o eglurder ynghylch y llwybr rheoli ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd a allai beri risg. Roedd angen i asesiadau risg a threfniadau rheoli risg, yn enwedig wrth gynnwys mwy nag un asiantaeth, gael eu rhannu a'u cofnodi'n fwy effeithiol. Nid oedd y cynnydd a wnaed i liniaru risg bob amser yn cael ei werthuso'n glir. Nid oedd yn amlwg bob amser i ba raddau yr oedd pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y broses.
- Roedd y trefniadau ar gyfer goruchwylio staff yn cynnwys uwch ymarferwr yn rheoli nifer fach o weithwyr cymdeithasol fel uned er mwyn sicrhau bod trafodaeth a chyfeiriad achosion yn fwy hygyrch. Roedd prif ymarferwr yn rheoli'r ymarferwr gwasanaeth ac roedd ar gael i ymgynghori ar achosion. Roedd staff yn gadarnhaol am y model gwaith hwn ond cydnabuwyd y byddai rhai newidiadau'n deillio o'r agenda drawsnewid. Roedd amllder goruchwyliaeth yn cael ei fonitro'n ffurfiol drwy systemau rheoli perfformiad; fodd bynnag, roedd ansawdd y cofnodion goruchwylio a welwyd yn amrywio'n fawr ac mewn rhai achosion, er gwaethaf hyfforddiant goruchwylio, roedd diffyg her a chyfeiriad amlwg.
- Dywedwyd bod rheolwyr yn hawdd mynd atynt a nododd staff fod achosion yn cael eu goruchwylio o fewn y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd gwaith cynllunio wrth gefn, gan gynnwys mewn perthynas â rheoli risg, bob amser wedi'i ddangos yn glir.

CWESTIWN 4

A oedd Adolygiadau Annibynnol a threfniadau sicrhau ansawdd yn hyrwyddo gofal diogel a'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl ifanc?

SYLWADAU CADARNHAOL

- Roedd trefniadau adolygu annibynnol yr awdurdod yn cydymffurfio â chanllawiau. Roedd adolygiadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol ar y cyfan ac yn cael eu cynnull yn ôl yr angen er mwyn adlewyrchu amgylchiadau'r person ifanc.
- Roedd gan yr awdurdod dîm sefydlog a phrofiadol o Swyddogion Adolygu Annibynnol a oedd yn gyfrifol am yr un achosion. Nodwyd bod llwythi achosion yn drwm. Fodd bynnag, roedd y tîm o Swyddogion Adolygu Annibynnol yn hyddysg iawn ac yn ymrwymedig i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn eu hadolygiadau ac yn cael cyfle i leisio eu barn. Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cwrdd â phobl ifanc fel mater o drefn cyn yr adolygiad ac yn neilltuo amser i geisio sicrhau bod yr adolygiad mor gyfforddus â phosibl iddynt. Gwelwyd tystiolaeth o rai pobl ifanc yn cadeirio eu hadolygiadau eu hunain.
- Roedd yr awdurdod wedi datblygu systemau er mwyn helpu'r Swyddogion Adolygu Annibynnol i arddel dylanwad eu rôl yn well, er enghraifft, roedd y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn ddiweddar wedi dechrau mynychu cyfarfodydd misol gyda rheolwyr tîm er mwyn trafod materion a phryderon. Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol hefyd yn gallu cofnodi pryderon ar ffeil. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cyfarfod â chyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ac yn llunio adroddiad blynyddol. Roedd protocol cyfeirio at lefel uwch ar waith, a dywedodd staff eu bod yn teimlo eu bod yn gallu ei ddefnyddio pan fo angen.
- Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod yn cael eu hannog i fynychu eu hadolygiadau ac roedd tystiolaeth bod eiriolwyr ar gael i gefnogi neu gynrychioli safbwyntiau person ifanc mewn cyfarfodydd o'r fath.
- Roedd gan wasanaethau plant fframwaith sicrhau ansawdd datblygedig. Roedd gwybodaeth yn cael ei chasglu o systemau perfformiad, archwiliadau ffeiliau, gwaith goruchwyllo, adborth o sylwadau defnyddwyr gwasanaethau a chwynion. Roedd canfyddiadau o'r systemau hyn yn cael eu cyflwyno i'r tîm rheoli corfforaethol, y tîm rhianta corfforaethol a staff. Gwelwyd tystiolaeth bod arolygiadau'n cael eu cynnal gan gynnwys staff gweithredol er mwyn cefnogi perchenogaeth o'r agenda gwella. Roedd arolygiadau thematig diweddar wedi cynnwys un ar ymweliadau statudol ac un arall ar sefydlogrwydd.
- Roedd yr awdurdod wrthi'n ailstrwythuro ac yn y dyfodol agos bydd y tîm o Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cael ei reoli o fewn gwasanaeth safonau ansawdd plant ac oedolion trawsbynciol. Y bwriad oedd i hyn gynnwys diogelu, datblygu'r gweithlu, datblygu polisi, sicrhau ansawdd a chwynion. Roedd yn rhy gynnar i bennu effaith y newidiadau hyn ond cydnabuwyd bod hwn yn bortffolio rheoli eang iawn ac y byddai angen i'r newidiadau gael eu rheoli a'u gwerthuso'n ofalus.

MEYSYDD I'W GWELLA

- Roedd yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal a welwyd yn canolbwyntio'n ormodol ar anghenion uniongyrchol y person ifanc ac nid oeddent yn rhoi digon o bwyslais ar sicrhau canlyniadau gwell yn y tymor hwy.

- Er bod Swyddogion Adolygu Annibynnol yn hyderus yn eu gallu i ddarparu her effeithiol, nid oedd hyn bob amser yn amlwg. Mae angen i'r diffyg cynnydd yn erbyn y cynllun gofal, hyd yn oed yn yr achosion mwyaf cymhleth, gael ei godi'n effeithiol a dylid monitro rhwystrau i gyflawni amcanion cynlluniau gofal, yn enwedig mewn perthynas â dewis o leoliad, sefydlogrwydd a threfniadau gadael gofal, yn rhagweithiol a'u cyfeirio at lefel uwch os na ellir eu datrys o fewn y terfynau amser priodol.
- Mewn rhai achosion roedd gorddibyniaeth sylweddol ar ofalwyr maeth i gyflawni yn erbyn agweddau craidd ar y cynllun. Er mai hon yw'r ffordd orau o gynnwys y person ifanc o bosibl, byddai'n bwysig sicrhau bod sefydlogrwydd a gwydnwch y lleoliad yn cael eu cefnogi'n effeithiol.
- Nid oedd rôl Swyddogion Adolygu Annibynnol wrth fonitro achosion rhwng adolygiadau yn eglur.
- Roedd gan bobl ifanc farn gymysg ynghylch adolygiadau, gyda rhai'n dweud eu bod yn eu mwynhau tra bod eraill yn fwy negyddol. Hyd yn oed pan roddwyd cymorth eiriolwr iddynt ac er gwaetha'r ffaith y gofynnwyd iddynt am eu barn, roedd pobl ifanc yn aml yn teimlo bod neb yn gwrando arnynt a bod ganddynt fawr ddim gallu i ddylanwadu ar y cynllun.

CWESTIWN 5

A oedd gwaith cynllunio gofal a llwybrau yn nodi ac yn hyrwyddo hawliau a llais y plentyn?

SYLWADAU CADARNHAOL

- Roedd fforwm ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal, sef "Lleisiau Uchel", wedi'i sefydlu gyda chymorth gan y Gwasanaeth Eirolaeth annibynnol. Roedd wedi dewis ei brosiect cyntaf sef paratoi pecyn croeso i blant sy'n dechrau cael gofal maeth. Roedd y pecynnau hyn bellach yn cael eu rhoi i bobl ifanc mewn gofal fel mater o drefn. Roedd y grŵp hwn hefyd wedi cynhyrchu dau DVD, un yn dilyn pedwar unigolyn sy'n gadael gofal a'u hymchwil i'r broses o adael gofal yng Nghonwy. Roedd yr ail yn ymdrin ag uchelgeisiau plant sy'n derbyn gofal, a'i nod oedd codi ymwybyddiaeth o'r ffordd y dylai'r Awdurdod Lleol helpu plant sy'n derbyn gofal i wireddu eu potensial yn yr amgylchedd addysg.
- Roedd trefniadau eirioli annibynnol ar waith yn yr awdurdod, a ddisgrifiwyd fel gwasanaeth sy'n seiliedig ar faterion, ac roedd tystiolaeth bod eiriolaeth yn cael ei thrafod mewn adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal. Roedd y gwasanaeth hwn hefyd wedi'i gontractio i fynychu cartref plant yr awdurdod bob pythefnos er mwyn galluogi pobl ifanc i godi materion neu siarad â rhywun sy'n annibynnol ar y cartref. Roedd yr holl pobl ifanc a welwyd yn ystod yr arolygiad yn ymwybodol o eiriolaeth ac roedd y rheini a oedd wedi ei defnyddio yn gadarnhaol yn bennaf am y gwasanaeth os nad y canlyniad.
- Er gwaethaf rhai sylwadau cymysg, roedd plant a phobl ifanc yn gyffredinol o'r farn bod gweithwyr proffesiynol yn ymdrechu'n barhaus i'w cynnwys mewn gwaith cynllunio. Fodd bynnag, nododd pobl ifanc bwysigrwydd sicrhau bod ymgynghoriadau'n cael eu cynnal mewn ffordd ystyrlon a gwnaethant fynegi

dicter am y ffaith y gofynnwyd iddynt dro ar ôl tro am eu 'dymuniadau a'u teimladau' ond nad oeddent yn teimlo bod neb yn gwranddo arnynt.

- Roedd yr awdurdod wedi datblygu grŵp 'Cyfeillio' a oedd yn cynnwys unigolion a oedd wedi gadael gofal mewn rôl gynghorol er mwyn cwrdd â phlant a oedd yn derbyn gofal ar hyn o bryd. Mae'r grŵp cyfeillio wedi'i hyfforddi a'i gefnogi i ymgymryd â'r gwaith hwn.

MEYSYDD I'W GWELLA

- Roedd tystiolaeth o'r ffeiliau achos a chyfweliadau yn awgrymu bod rhai pobl ifanc yn hoffi eu gweithiwr cymdeithasol ond bod eraill yn fwy ansicr. Roedd pobl ifanc yn aml yn dweud nad oeddent yn gweld eu gweithiwr cymdeithasol ddigon ac nad oedd yn ddigon dibynadwy; nad oedd yn cadw apwyntiadau neu ei fod yn cyrraedd yn hwyr. Ystyriwyd mai rôl gwaith cymdeithasol oedd atal pobl ifanc rhag 'gwneud pethau' yn hytrach nag annog a galluogi.
- Gallai unigolion sy'n gadael gofal gymharu'r lefel hon o wasanaeth gyda'r cyfathrebu a'r ymatebolrwydd gwell yr oeddent yn ei brofi ar hyn o bryd gan eu cynghorwyr personol yn eu barn hwy. Fodd bynnag, roedd hyn yn dibynnu ar eu cydberthynas â'r unigolyn.
- Roedd y bobl ifanc a welwyd yn teimlo bod ganddynt fawr ddim gallu i ddylanwadu ar y dewis o leoliadau neu lety. Fodd bynnag, mae angen cydbwysu'r safbwyntiau hyn yn erbyn cyfrifoldebau amddiffyn plant yr awdurdod i gymryd camau diogelu.
- Nododd pobl ifanc hefyd yr effaith sylweddol yr oedd newid gweithwyr cymdeithasol a lleoliadau yn ei chael ar eu gallu i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth. Codwyd materion yn ymwneud â'r problemau sy'n gysylltiedig â chyfrifoldeb dirprwyedig fel caniatâd i aros dros nos gyda ffrindiau.
- Er gwaethaf rhai profiadau cadarnhaol, dywedodd unigolion sy'n gadael gofal eu bod hefyd yn teimlo eu bod wedi'u hynysu'n gymdeithasol ac nad oeddent yn barod ar gyfer annibyniaeth. Roedd diffyg tai camu ymlaen priodol yn amlwg yn achosi cryn bryder i unigolion sy'n gadael gofal.
- Roedd gan bobl ifanc sylwadau cymysg o ran pa un a hoffent gael cyfleoedd i gwrdd â'i gilydd. Roedd unigolion sy'n gadael gofal o'r farn y gallai eu dealltwriaeth o 'dderbyn gofal' gael ei defnyddio'n well gan yr awdurdod er mwyn cefnogi eraill.